Y penbwl pwysig

Cyfeillgarwch / Caerdigrwydd / Gostyngeidrwydd

Yn y pwll yn ymyl y ffordd roedd criw o benbyliaid duon yn byw. Roedd pob un ohonyn nhw wedi deor o'r wyau oedd yn y grifft. Yn ystod y dydd byddai'r penbyliaid yn nofio'n braf yn y dŵr. Pan fyddai'r haul yn tywynnu byddai'r penbyliaid yn casglu at ei gilydd ar lan y dŵr i dorheulo.

Penbyliaid tawel, cyfeillgar oedden nhw i gyd ond un. Yn eu plith roedd un penbwl pwysig iawn. Doedd y penbwl pwysig ddim yn hoff o'r penbyliaid eraill. "Dydw i ddim yn hoffi run ohonoch chi," meddai wrth y penbyliaid eraill. Bob dydd o'r wythnos byddai'n dweud yr un peth wrth y penbyliaid eraill. Un diwrnod, dywedodd y penbyliaid eraill wrtho. "Pam nad ei di i fyw i rywle arall. Mae'n siŵr bod penbyliaid pwysig fel ti yn byw i fyny'r afon. Dos i fyw atyn nhw."

Meddyliodd y penbwl pwysig am hyn ac i ffwrdd a fo i fyny'r afon i chwilio am benbyliaid pwysig.

Roedd y penbyliaid eraill i gyd yn falch o glywed hyn. Doedd yr un ohonyn nhw'n hoff o'r penbwl pwysig.

Cyrhaeddodd lyn mawr i fyny'r afon. Yn y llyn roedd penbyliaid mawr, mawr yn byw. Edrychodd un o'r penbyliaid mawr, mawr arno'n sarrug. "Pwy wyt ti? Beth wyt ti yn ei wneud yn ein llyn ni?" Cyn iddo gael ateb dyma nhw'n ei erlid ac ymosod arno. Nofiodd y penbwl pwysig i ganol y tyfiant. Yno y buo fo'n cuddio. Disgwyliodd i'r lleill i gyd fynd oddi yno. Pan ddaeth o ganol y tyfiant daeth tri phenbwl mawr ar ei draws. Dyma nhw'n agor eu cegau led pen. Rhuthrodd y penbwl pwysig i guddio unwaith eto.

"Dydw i ddim yn hoffi yn y llyn mawr," meddai. "Mi fuasai'n well gen i petawn i yn ôl yn y llyn bach ymhen arall yr afon." Arhosodd yng nghanol y tyfiant drwy'r dydd a'r nos. "Pan ddaw y bore," meddai, "rydw i am nofio i lawr yr afon i'r llyn bach."

Pan ddaeth pelydrau'r haul ar y dŵr cychwynnodd y penbwl

pwysig am y llyn bach. I ffwrdd ag ef i lawr yr afon yn gyflym, gyflym. Ar ôl awr o nofio caled cyrhaeddodd y llyn bach. Roedd y penbyliaid eraill i gyd yn nofio'n braf a hamddenol. Dyma un ohonyn nhw'n ei weld.
"Edrychwch," meddai wrth y penbyliaid eraill. "Edrychwch pwy sydd wedi dod yn ôl."
Edrychodd pob un arno. Roedd y penbwl pwysig yn teimlo'n swil ac meddai wrth y lleill. "Pe bawn i'n gwybod pa fath o benbyliaid oedd yn y llyn mawr fuaswn i byth wedi mynd yno. O hyn ymlaen dydw i ddim am fod yn benbwl pwysig. Y fi fydd y penbwl hoffus, caredig a chyfeillgar o hyn ymlaen."
Ac felly bu. Bu'r penbyliaid i gyd, gan gynnwys y penbwl pwysig, yn ffrindiau mawr.

Diolch i Ti, O Dduw, dy fod yn ein caru hyd yn oed pan fyddwn yn gwneud drwg.
Helpa ni i fod yn annwyl ac i faddau i bawb o'n cwmpas. Amen.

✦ Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r penbwl pwysig?
✦ Pam ydych chi'n credu y daeth o'n ôl i'r llyn bach at y penbyliaid eraill?